Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Goleg Priory De Cymru
# Campws Pont-y-pŵl
# Coleg Gwent
# Ffordd Blaendare
# Pont-y-pŵl
# Torfaen
# NP4 5YE

**Dyddiad yr arolygiad: Rhagfyr 2019**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Choleg Priory De Cymru

Coleg annibynnol arbenigol yw Coleg Priory De Cymru, sydd wedi'i leoli o fewn campws Coleg Gwent ym Mhont-y-pŵl, sef y sefydliad addysg bellach (SAB) sy'n gwasanaethu de ddwyrain Cymru.

Sefydlwyd Coleg Priory De Cymru yn 2010, ac fe'i gweinyddir gan Wasanaethau Addysg Priory, sy'n rhan o'r Grŵp Priory ehangach.

Mae'r coleg yn cynnig lleoliadau dydd ar gyfer oedolion ifanc rhwng 16 a 25 oed â syndrom Asperger, anhwylderau'r sbectrwm awtistig (ASA) a chyflyrau cysylltiedig. Mae 32 o ddysgwyr yn y coleg ar hyn o bryd. Daw pob un o'r dysgwyr i'r coleg o'r ardal leol.

Mae tua un o bob pump o'r dysgwyr yn cael addysg yn fewnol, yn gyfan gwbl yn y coleg, ac yn dilyn cyrsiau lefel cyn-mynediad i lefel 2, gan gynnwys medrau byw yn annibynnol. Mae'r dysgwyr eraill yn dilyn cyrsiau amser llawn yng Ngholeg Gwent o blith amrywiaeth o raglenni o lefel mynediad i lefel 3. Mae pob un o'r dysgwyr, ni waeth ble yw eu prif le astudio, yn cael cymorth yn y dosbarth a chymorth ychwanegol gan staff Coleg Priory.

Cynhaliwyd yr arolygiad craidd diwethaf o'r coleg ym mis Ionawr 2017. Penodwyd rheolwr y coleg yn 2017.

## Prif gryfderau

### *Cryfderau*

Mae'r coleg yn darparu amgylchedd digynnwrf a chroesawgar sy'n galluogi dysgwyr i deimlo'n ddiogel a saff. Mae hyn yn cyfrannu at y lefelau uchel iawn o bresenoldeb.

Mae'r coleg yn darparu lefelau uchel o gymorth ac arweiniad i bob dysgwr, sy'n seiliedig ar ddealltwriaeth gadarn o anghenion dysgwyr. Mae hyn yn helpu dysgwyr i wneud cynnydd addas, a chyflawni eu nodau cymhwyster, lle bo'n briodol.

Gall dysgwyr elwa ar gwricwlwm sy'n cynnwys astudio ar gyfer cymwysterau a gydnabyddir yn genedlaethol, ochr yn ochr â'u cyfoedion yn y brif ffrwd, a darpariaeth fewnol sy'n gweddu'n dda i anghenion unigolion, ar y cyfan. Mae hyn yn helpu datblygu hyder a medrau annibyniaeth dysgwyr.

Mae dysgwyr yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o'r cryfderau a'r meysydd i'w gwella yn y coleg. Mae'r rhain wedi'u seilio ar ymrwymiad cryf i wella cyfleoedd a deilliannau ar gyfer yr holl ddysgwyr.

### *Meysydd i'w datblygu*

At ei gilydd, mae'r coleg wedi cymryd camau priodol o ran mynd i'r afael ag argymhellion yr ymweliad monitro blynyddol blaenorol. Fodd bynnag, nid yw gweithgareddau hunanwerthuso yn nodi blaenoriaethau ar gyfer gwella yn ddigon clir na chyson.

Mae'r coleg yn olrhain cyrchfannau dysgwyr pan fyddant yn gadael y ddarpariaeth. Fodd bynnag, nid oes ganddo brosesau ar waith i barhau i fonitro'r rhain dros gyfnod.

### Argymhellion

**Dylai'r ysgol:**

**A1. Gryfhau prosesau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant**

**A2. Olrhain y cynnydd a wna dysgwyr ar ôl iddynt adael y coleg**

## Cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion o nodyn ymweliad neu adroddiad arolygiad blaenorol

**Argymhelliad 1: Gwneud yn siŵr fod gweithgareddau hunanwerthuso yn canolbwyntio'n glir ar effaith yr addysgu a'r ddarpariaeth ar ddeilliannau dysgwyr**

Mae gan y coleg brosesau cadarn ar waith i gasglu gwybodaeth am y cynnydd a wna dysgwyr. Pan fydd dysgwyr yn mynychu Coleg Gwent ar gyfer eu prif raglen astudio, mae arweinwyr y coleg yn gweithio'n agos gyda staff allweddol yno i nodi'r hyn sy'n gweithio'n dda a ble mae angen gwneud newidiadau i gefnogi cynnydd dysgwyr unigol.

Mae'r coleg yn defnyddio'r wybodaeth a gesglir trwy'r gweithgareddau hyn i addasu'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr unigol neu wella'r ddarpariaeth yn gyffredinol, er enghraifft gwella trefniadau pontio ar gyfer dysgwyr sy'n ymuno â'r coleg. Fodd bynnag, at ei gilydd, nid yw'r coleg yn sicrhau o hyd bod cyfleoedd hunanwerthuso pwysig fel arsylwadau gwersi a chyfarfodydd staff yn canolbwyntio'n ddigon clir ar effaith yr addysgu a'r ddarpariaeth ar ddeilliannau dysgwyr. Mae hyn yn golygu nad yw blaenoriaethau gwella yn canolbwyntio'n gyson dda ar wella deilliannau ar gyfer dysgwyr mewn ffyrdd sy'n berthnasol iddyn nhw.

Mae cynllun gwella'r coleg yn dangos bod y coleg wedi gwneud gwelliannau i'w ddarpariaeth i ymateb i ddiffygion a nodwyd. Mae gan arweinwyr y coleg weledigaeth berthnasol ac uchelgeisiol ynglŷn â sut hoffent gryfhau'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr, yn enwedig o ran datblygu ystod a her y profiadau dysgu ar gyfer dysgwyr mewnol. Fodd bynnag, nid yw cynllunio yn adlewyrchu'r weledigaeth hon yn ddigon da nac yn nodi sut mae'r coleg yn bwriadu cyflawni'r weledigaeth hon / y nod hwn.

**Argymhelliad 2: Datblygu cyfathrebu gwell ag ysgolion, asiantaethau ac awdurdodau lleol eraill i sicrhau bod gwybodaeth am ddysgu blaenorol dysgwyr yn gallu llywio cynlluniau dysgu**

Ers yr ymweliad monitro blynyddol diwethaf, mae'r coleg wedi sefydlu cysylltiadau ag ysgolion blaenorol llawer o'r dysgwyr, ac erbyn hyn, mae'n mynychu cyfarfodydd adolygiad blynyddol y dysgwyr, cyn iddynt ddechrau yn y coleg. Mae ysgolion yn rhannu gwybodaeth hanfodol am y dysgwyr, gan gynnwys eu cryfderau, eu hanghenion cymorth a dogfennau o adolygiadau blynyddol. Fodd bynnag, mae gwybodaeth yn ymwneud â gallu a chynnydd academaidd dysgwyr yn gyfyngedig ac amrywiol. Mae'r coleg yn datblygu ei berthnasoedd ag ysgolion i wella hyn.

Yn ddiweddar, mae'r coleg wedi cryfhau'r wybodaeth sydd ei hangen arno fel rhan o'r broses ymgeisio. Maent yn ystyried safbwyntiau rhieni a dysgwyr o ran hoffterau, casbethau, dyheadau ac anghenion cymorth dysgwyr. Yn ychwanegol, mae'r coleg yn defnyddio gwybodaeth hanfodol, er enghraifft am lefel annibyniaeth dysgwyr, ymwybyddiaeth o risg ac ymgysylltiad cymunedol i ddarparu cwricwlwm sy'n gweddu'n dda i ddysgwyr unigol, ar y cyfan. Hefyd, mae'r coleg yn asesu medrau dysgwyr mewn llythrennedd a rhifedd pan fyddant yn dechrau yn y coleg. Mae'r amrywiaeth hon o dystiolaeth yn fan cychwyn defnyddiol iawn ar gyfer cynlluniau

dysgu unigol, ac fe'i defnyddir yn effeithiol i greu darpariaeth fewnol sy'n canolbwyntio ar ddatblygu hyder, medrau siarad a medrau annibyniaeth, a chynghori ynghylch cyrsiau astudio a chyfleoedd dilyniant priodol.

Mae cynlluniau dysgu unigol wedi eu seilio ar ddealltwriaeth gadarn o anghenion a dyheadau dysgwyr.  Mae targedau ar gyfer gwella yn briodol.  Fodd bynnag, mewn rhai achosion, nid yw'r rhain yn ddigon heriol, ac nid yw'r drefn i olrhain y cynnydd a wna dysgwyr tuag at y targedau hyn bob amser yn ddigon clir.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan y darparwr ac ar wefan Estyn www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 77 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor,
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2020: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 17/02/2020